# Gwerthuso cynnyrch a gwasanaethau yswiriant

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gwerthuso cynnyrch neu wasanaeth a gynigir gan eich sefydliad a chymharu hynny ag eraill sydd ar gael yn y farchnad. Mae hefyd yn golygu nodi yswiriant a phremiymau mae eich sefydliad yn eu cynnig a allai fod yn berthnasol neu beidio i anghenion cwsmeriaid, bylchau yn y cynnyrch a'r gwasanaethau a gynigir gan eich sefydliad, ac unrhyw newidiadau i'r farchnad neu i anghenion eich cwsmeriaid. Ar ôl gwneud eich gwerthusiad, byddwch chi'n paratoi eich argymhellion ar gyfer gwella cynnyrch neu wasanaeth a gynigir gan eich sefydliad, ac yn cyflwyno'r rhain i'r person priodol. Bydd angen i chi ymfalchïo mewn darparu gwaith o ansawdd uchel a chyflwyno gwybodaeth yn glir ac yn gryno.

Mae'n bosibl y bydd y safon hon yn addas i chi os yw'r cwmni yr ydych yn gweithio fel rhan ohono'n ganolwr, yn yswiriwr, neu'n sefydliad sy'n gweithio ar eu rhan.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Casglu ac asesu gwybodaeth briodol i werthuso cynnyrch neu wasanaeth, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
2. Nodi a gwerthuso nodweddion, manteision a phrisiau'r cynnyrch neu'r gwasanaethau a gynigir gan eich sefydliad o'u cymharu ag eraill sydd ar gael yn y farchnad
3. Nodi unrhyw yswiriant a phremiymau y mae eich sefydliad yn eu cynnig nad ydynt o reidrwydd yn berthnasol i anghenion cwsmeriaid
4. Nodi unrhyw newidiadau neu dueddiadau yn y farchnad neu anghenion eich cwsmeriaid sy'n galw am newidiadau i gynnyrch neu wasanaethau
5. Nodi a gwerthuso bylchau yn y cynnyrch a'r gwasanaethau a gynigir gan eich sefydliad
6. Dadansoddi gwybodaeth ynghylch cynnyrch a gwasanaethau a dod i gasgliadau ynghylch y cynnyrch a'r gwasanaethau rydych chi'n eu cynnig
7. Paratoi argymhellion ar gyfer gwella cynnyrch a gwasanaethau a'u cefnogi â thystiolaeth ddigonol a dilys
8. Cyflwyno eich argymhellion i'r bobl briodol, gan esbonio'r nodweddion, y manteision ac unrhyw anfanteision neu risgiau
9. Cydymffurfio â gofynion cydymffurfio cyfreithiol a rheoliadol, rheoliadau'r diwydiant, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer proffesiynol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Egwyddorion a rheoliadau yswiriant a chyfreithiol perthnasol sy'n effeithio ar eich gweithgareddau
2. Strwythur y farchnad yswiriant a rolau a chyfrifoldebau'r amrywiol bartïon sy'n rhan ohoni sy'n effeithio ar eich gweithgareddau
3. Ffynonellau gwybodaeth a chyngor
4. Sut mae canfod tueddiadau a newidiadau posibl yn y farchnad neu yn anghenion cwsmeriaid
5. Sut mae canfod bylchau yn y cynnyrch a'r gwasanaethau a gynigir gan eich sefydliad
6. Sut mae dadansoddi gwybodaeth i ddod i gasgliadau a llunio argymhellion
7. Terfynau eich awdurdod
8. Eich rôl gwaith a'r cyfrifoldebau sydd arnoch yn sgîl hynny
9. Gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso codau, cyfreithiau a gofynion rheoliadol sy'n cael effaith ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn adnabod newidiadau i amgylchiadau ac yn cymryd y rhain i ystyriaeth
2. Rydych yn mabwysiadu agwedd ymchwilgar i gasglu manylion gofynnol sy'n hanfodol i'ch gwaith
3. Rydych yn rheoli perthnasoedd busnes ac yn cynnal rhwydweithiau effeithiol
4. Rydych yn gweithio mewn modd sy'n gwella ac yn hybu perthnasoedd gwaith proffesiynol
5. Rydych yn gwrando'n weithredol ac yn gofyn cwestiynau i sicrhau dealltwriaeth ac eglurder

Gwerthuso cynnyrch a gwasanaethau yswiriant

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPGI10 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Yswiriant Cyffredinol |
| **Geiriau Allweddol** | Hawliad yswiriant; polisi yswiriant; polisïau; hawliad; hawlydd; setliad; wedi'i yswirio; heb ei yswirio; hysbysiad |